



Ein cyf/Our ref VG/08013/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

15 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Hydref ynglŷn â Deiseb Rhif P-05-1052: codiad cyflog i nyrsys y GIG.

Rwy'n ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu pob un o'n gweithwyr iechyd ymroddedig yng Nghymru, ac yn cydnabod y pwysau enfawr sydd arnynt bob amser, yn enwedig yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Ym mis Ionawr 2020, darperais lythyr cylch gwaith i'r ddau gorff sy'n adolygu cyflogau ym maes iechyd, ac sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, (sef y Corff Adolygu Tâl Meddygon a Deintyddion, a Chorff Adolygu Cyflogau'r GIG). Mae'r llythyron blynyddol hyn yn rhan o gylch blynyddol y cyrff adolygu, pan fyddant yn darparu cyngor ac argymhellion annibynnol ynglŷn â lefel briodol y dyfarniad cyflog i staff sy'n gweithio yn GIG Cymru.

Roedd y dyfarniad cyflog i Feddygon a Deintyddion, a gyhoeddwyd ar gyfer 2020/2021, yn rhan o broses y cylch blynyddol.

Ni ofynnwyd i Gorff Adolygu Cyflogau'r GIG wneud unrhyw argymhellion penodol ynglŷn â chyflogau gan fod cytundeb cyflogau yn parhau ar waith, ar ôl i hwnnw gael ei negodi mewn partneriaeth rhwng Cyflogwyr y GIG a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur, a chael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2018. O dan y cytundeb tair-blynedd presennol, gwelir rhai o'r newidiadau pwysicaf a wnaed i arferion gwaith mewn degawd, gan gynnwys amrywiaeth o gynigion sy'n ymwneud â thâl, yn ogystal â chynigion nad ydynt yn ymwneud â thâl, a fydd o fantais i'r staff a hefyd i'r cleifion. Bydd y rhan fwyaf o staff sydd heb gyrraedd lefel uchaf eu band cyflog yn elwa o gael codiad cyflog drwy fod y bandiau cyflog yn cael eu hailstrwythuro – cyflogau cychwynnol uwch, cael gwared ar bwyntiau cyflog sy'n gorgyffwrdd, a graddfeydd cyflog byrrach.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth i'r cytundeb tair-blynedd hwn ddod i ben, ac wrth inni ddechrau ar y cylchoedd cyflog ar gyfer Ebrill 2021 i holl staff y GIG, gan gynnwys staff yr Agenda ar gyfer Newid, rydym wedi ymrwymo i gydweithio gyda'n partneriaid, cyflogwyr y GIG a'r undebau, drwy broses adolygu'r corff annibynnol, er mwyn sicrhau y bydd y pecyn gwobrwyo gorau posibl ar waith. Fodd bynnag, rwyf wedi gofyn bod y cylch adolygu cyflogau yn cael ei ddwyn ymlaen gyda'r nod o ddarparu adroddiad mor gynnar â phosibl yn 2021. Serch hynny, yn y pen draw, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bennu amserlenni'r cyrff adolygu cyflogau.

Mae angen cymorth gan Lywodraeth y DU i ariannu unrhyw setliad ar gyfer codi cyflogau staff y GIG a holl weithwyr y sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwobrwyo mewn modd teg.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, reading 'Vaughan Gething'. The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services